



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

---

**TEITL** Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio etc.)  
(Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2020

**DYDDIAD** 23 Hydref 2020

**GAN** Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

**OS a osodwyd yn Senedd y DU, sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig**

**Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2020**

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio'r ddeddfwriaeth a ganlyn:

### Deddfwriaeth yr UE

- Rheoliad (UE) rhif 640/2010 Senedd Ewrop a'r Cyngor o 7 Gorffennaf 2010 sy'n sefydlu rhaglen ar gyfer dogfennu dalfeydd tiwna asgell las yr Iwerydd *Thunnus thynnus* ac yn diwygio Rheoliad (CE) rhif 1984/2003 y Cyngor;
- Rheoliad (CE) rhif 1035/2001 y Cyngor o 22 Mai 2001 sy'n sefydlu cynllun ar gyfer dogfennu dalfeydd *Dissostichus spp.*;
- Rheoliad (CE) rhif 1005/2008 y Cyngor o 29 Medi 2008 sy'n sefydlu system ar gyfer y Gymuned i rwystro, atal a diddymu pysgota anghyfreithlon ac anrheoleiddiedig nas hysbysir amdano;
- Rheoliad (CE) rhif 1010/2009 y Comisiwn o 22 Hydref 2009 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer rhoi Rheoliad (CE) rhif 1005/2008 ar waith sy'n sefydlu system ar gyfer y Gymuned i rwystro, atal a diddymu pysgota anghyfreithlon ac anrheoleiddiedig nas hysbysir amdano; a
- Rheoliad (UE) rhif 468/2010 y Comisiwn o 28 Mai 2010 sy'n sefydlu rhestr yr UE o gychod sy'n cynnal pysgota anghyfreithlon ac anrheoleiddiedig nas hysbysir amdano.

### Is-ddeddfwriaeth ddomestig

- Rheoliadau Pysgodfeydd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019; a
- Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Dyframaethu (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

### **Unrhyw effaith y gall yr offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Nid yw Rheoliadau 2020 yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

O ran cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru, mae rheoliad 4 o Reoliadau 2020 yn diwygio fersiwn cyfraith yr UE a ddargedwir o Reoliad (CE) rhif 1035/2001 y Cyngor sy'n gosod y rheolau a'r amodau cyffredinol ar gyfer rheoli'r ffordd y rhoddir ar waith Gynllun Dogfennu Dalfeydd *Dissostichus spp* (h.y. *Deintbysg yr Antarctig – Antarctic toothfish*) a fabwysiadwyd gan Gomisiwn Gwarchod Adnoddau Byw Morol yr Antarctig ("CCAMLR") er mwyn rhoi rhwymedigaethau, sy'n weinyddol eu natur, i Weinyddiaeth Pysgodfeydd (h.y. Gweinidogion Cymru) pan gaiff *Dissostichus spp* eu glanio, eu mewnfario, eu hallfario neu eu hailallfario. Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â "Gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag Antarctica", sy'n faterion wedi'u dargadw ac felly y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Ceir diffiniad o 'Weinyddiaeth Pysgodfeydd' yn Rheoliad yr UE a ddargedwir (EU) rhif 1380/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019.

Mae'r holl ddiwygiadau i'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC) yn cael eu gwneud gan fod y DU yn ymadael â'r UE. Mae'r diwygiadau'n sicrhau bod deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol, bod y rheoliadau'n parhau ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu, a bod yr un safonau'n cael eu bodloni mewn cysylltiad â rheoli pysgodfeydd. Mae'r diwygiadau'n sicrhau hefyd fod y Deyrnas Unedig (DU) yn cwrdd â'i rhwymedigaethau o dan Brotocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon yn y cytundeb ymadael ("y Protocol").

### **Diben y diwygiadau**

Mae'r Rheoliadau'n gwneud cywiriadau a diwygiadau technegol i Reoliadau Pysgodfeydd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 a Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Dyframaethu (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019; ac yn cymhwyso'n uniongyrchol ddarpariaethau sawl deddfwriaeth yr UE a ddargedwir fel eu bod yn cael effaith mewn perthynas â Phrydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

Mae'r PPC yn pennu ymagwedd gyffredin at reoli pysgodfeydd yn gynaliadwy ac yn rheoleiddio gweithgareddau pysgota gan orfodi'r gweithgareddau hynny ledled yr UE a'i

ddyfroedd; mae hefyd yn gweithredu gofynion cytundebau rhyngwladol y mae'r UE wedi'u llofnodi ar ran Aelod-wladwriaethau.

Mae Llywodraeth y DU yn parhau'n ymrwymedig i gynnal y safonau presennol ar gyfer rheoli pysgodfeydd yn effeithiol. Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud cywiriadau i sawl deddfwriaeth a ddargedwir sy'n ymwneud â'r PPC, gan sicrhau bod y rheoliadau'n parhau ar ôl diwedd y cyfnod gweithredu a bod yr un safonau'n cael eu bodloni.

Mae'r newidiadau'n golygu bod y DU yn cydsynio â'r Cytundeb Mesurau Gwladol mewn Porthladdoedd ("y PSMA") a Chomisiwn Rhyngwladol Gwarchod Tiwna'r Iwerydd ("ICCAT") er mwyn gallu cyflawni'i hymrwymiaidau o dan y cytundebau hyn, a hefyd o ran ymrwymiaidau'r CCAMLR i sicrhau bod y DU yn parhau i allu taelo arferion pysgota anghyfreithlon ac anrheoleiddiedig nas hysbysir amdanynt ("IUU"), hyrwyddo pysgota cynaliadwy a gweithredu'r Protocol yn effeithiol.

Mae Rheoliadau 2020 a'u Memorandwm Esboniadol, sy'n gosod manylion tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma:

<https://statutoryinstruments.parliament.uk/timeline/dEaap6JB/SI-2020/>

### **Pam y cafodd cydsyniad ei roi**

Mae cydsyniad wedi'i roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn cysylltiad â Cymru ac ar ei rhan er sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod ac i sicrhau bod y llyfr statud yn gyson a chydlynol. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn; ac nid yw'r diwygiadau'n newid polisi. Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau'n ymarferol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yn cael ei osod i gydymffurfio â Rheol Sefydlog 30.A.